**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 27ain Mawrth 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **Paul Claydon**<br>**PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL (CYFLWYNO'R GWASANAETHAU)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am Brosiect y Ffenics, sef rhaglen camu i mewn gyda phobl ifanc sy'n cael ei darparu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Prif nod Prosiect y Ffenics yw buddsoddi yn oedolion yfory trwy gynorthwyo i addysgu pobl ifanc heddiw. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy herio agweddau'r bobl ifanc ynghyd â'u gweithredoedd. Gwneir hyn trwy ddefnyddio sgiliau, profiad ac enw da Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn wythnos o weithgareddau sy'n cynnwys datrys problemau, cymorth cyntaf a defnyddio offer yr ochr weithredol, tra'n gweithio fel rhan o dîm.

1.2 Mae Prosiect y Ffenics wedi ei anelu at bobl ifanc rhwng 13 a 17 oed sydd efallai, neu wedi bod, yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, bwlio neu'n cael problemau ymddygiad gartref neu yn yr ysgol. Plant eraill o fewn y grŵp targed yw'r rhai sydd â hunanwerth isel neu ddiffyg hyder, rhai sy'n cael trafferth cyfathrebu, ac yn arbennig blant sydd wedi eu diarddel, neu'n debygol o gael eu diarddel, o'r ysgol.

1.3 Y nod yw newid ffordd rhai ohonynt, os nad pob un, a'u cynorthwyo i'w cymell eu hunain a bod yn fwy cadarnhaol amdanynt eu hunain. Y gobaith yw y bydd hyn yn ei dro'n eu gwneud yn well dinasyddion. Mae'r cwrs yn rhoi hwb i drafodaethau am broblemau bywyd go iawn sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## 2. CEFNDIR

2.1 Sefydlwyd Prosiect y Ffenics ym Medi 2000 yn Tyne and Wear, yng Ngorsaf Dân Ganolog Sunderland. Er bod Tyne and Wear wedi dod â'r cwrs i ben oherwydd prinder arian, roedd y cynllun mor llwyddiannus fel bod Brigâd Dân Cernyw wedi mabwysiadu'r prosiect ac yn ei redeg yn llwyddiannus ers y pedair blynedd diwethaf.

2.2 Wrth ymchwilio i ba mor effeithiol oedd rhaglenni camu i mewn gyda phobl ifanc, bu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru werthuso manteision Prosiect y Ffenics, gan redeg cwrs treialu yn Ebrill 2004.

3. **Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD**

3.1 O ganlyniad i lwyddiant y cwrs treialu, yn seiliedig ar yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd oddi wrth bawb oedd yn rhan ohono, sy'n cynnwys yr awdurdodau cyfeirio, y ddarpariaeth cyfiawnder ieuenctid, yr heddlu, rhieni a gwarcheidwaid, cafodd prosiectau eraill eu rhedeg yn 2005 ac mae rhai eraill wedi eu trefnu fel a ganlyn:

- 2004/5 – 4 cwrs - 3 yn Wrecsam ac 1 yn Sir y Fflint.
- 2005/6 – 16 cwrs - 8 yn Wrecsam, 4 yn Sir y Fflint, 2 yn Ynys Môn, 1 yng Ngogledd Gwynedd ac 1 yn Ne Gwynedd.

Mae 6 chwrs eisoes wedi eu trefnu ar gyfer 2006/7 – 1 yn Sir Ddinbych, 1 yng Nghonwy, 1 yn Wrecsam a 3 yn Sir y Fflint.

3.2 Gan yr Awdurdodau Unedol perthnasol y daeth yr arian ar gyfer y cyrsiau a gyflwynwyd hyd yn hyn, a'r rhai a drefnwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Daeth hyn naill ai trwy lifoedd arian mewnol, neu drwy sicrhau arian nawdd gan wahanol ffynonellau. Mae'r ffynonellau'n cynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r gronfa Grant Bychan at Losgi Bwriadol a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

3.3 Un o ganlyniadau rhedeg y cwrs yw'r gofyn am staff i oruchwylio a gweithio gyda'r rhai sy'n cymryd rhan. I dechrau, roedd hyn yn cael ei wneud gan wirfoddolwyr brwdfrydig ac ymroddgar o blith y Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae llwyddiant y cwrs a'r dyhead i gynyddu nifer y cyrsiau wedi gwneud y ddarpariaeth o ran staffio yn anodd i'w chynnal yn wirfoddol.

3.4 Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi cael gwybod bod cais gan yr Adran Diogelwch Tân Cymunedol am arian gan Lywodraeth y Cynulliad wedi bod yn llwyddiannus. Bydd hyn yn arwain at benodi dau aelod pwrpasol llawn amser o staff ar gyfer Prosiect y Ffenics, fydd yn galluogi'r prosiect i gael ei ymestyn am gyfnod peilot o dair blynedd er mwyn gwneud gwerthusiadau ansoddol a meintiol o'r manteision i'r unigolion, y cymunedau dan sylw a'r Gwasanaeth.

Cyfanswm y cyllid yw £143K am y prosiect 3 blynedd, i'w dalu fel a ganlyn:

2006/7 - £53k
2007/8 - £45k
2008/9 - £45k

4. **ARGYMHELLION**

4.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.